



Asiantaeth
Safonau
Bwyd
food.gov.uk

Lladd da byw gartref:

Canllawiau ar y gyfraith yng Nghymru ac yn Lloegr

Cyhoeddwyd: Medi 2020

Adolygwyd diwethaf: Medi 2020

Hanes diwygio

Rhif y diwygiad	Dyddiad	Diben y diwygiad	Diwygiwyd gan
1	Tachwedd 2012	Uno fersiynau Cymru a Lloegr a'u trosglwyddo i dempled canllawiau newydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).	Tolu Odeleye
2	Mawrth 2013	Eglurhad o baragraff 28	Tolu Odeleye
3	Ebrill 2013	I adlewyrchu'r newidiadau i'r gofynion ar gyfer Profi BSE a'r newidiadau i'r Rheoliadau Lles Anifeiliaid	Tolu Odeleye
4	Medi 2020	<ul style="list-style-type: none"> Trosglwyddo i dempled canllawiau newydd yr ASB Diweddariad i gyfeiriadau deddfwriaethol a chyfeiriadau dolenni trwy'r ddogfen Eglurhad o 'ladd preifat' Diweddariad i ofynion profi TSE Eglurhad o ladd brys Diweddariadau i Statws Cyfreithiol y canllawiau Diwygiad i ganiatáu defnyddio'r rheiny â Thystysgrif Cymhwysedd neu drwydded i ladd anifeiliaid o dan gyfrifoldeb a goruchwyliaeth y perchennog i adlewyrchu newidiadau i'r rheolau lles anifeiliaid yn Rheoliad y Cyngor (CE) 1099/2009 ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd Ychwanegiad i gynnwys ffermwr i sicrhau bod pawb sy'n lladd gartref yn cael eu cofnodi mewn cofrestrau fferm ac yn cael eu hadrodd i'r asiantaeth briodol Diweddariad i restr deunyddiau SRM Diweddariad i'r rhestr o gysylltiadau defnyddiol 	Moira Williams

Rhif y diwygiad	Dyddiad	Diben y diwygiad	Diwygiwyd gan
		<ul style="list-style-type: none"> • Ychwanegu arfer gorau i roi rhybudd ymlaen llaw i'r awdurdod lleol am fwriad i ladd gartref • Eglurhad na ellir symud carcasau neu rannau o garcasau da byw sy'n cael eu lladd gartref i safle arall i'w prosesu • Ychwanegu dolen i'r rhestr o ladd-dai cymeradwy • Ychwanegu dolen at ffatrioedd rendro sgil-gynhyrchion anifeiliaid cymeradwy ym mharagraff 17 • Ychwanegu arfer gorau i gynnal cofnodion pan ddefnyddir gwasanaethau lladdwr • Ychwanegu manylion o ran sut i ddilysu trwydded/Tystysgrif Cymhwysedd lladdwr • Ychwanegu adran ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid 	

Crynodeb

Diben

Datblygwyd y canllawiau hyn i roi gwybodaeth am y gyfraith sy'n cwmpasu lladd da byw gartref.

Statws cyfreithiol

Nod y canllawiau hyn yw rhoi esboniad clir o ofynion cyfreithiol yn ymwneud ag Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSEs) a hylendid cig. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi arfer gorau.

Ar gyfer pwy mae'r cyhoeddiad hwn?

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer:

- Perchnogion Da Byw
- Lladdwyr sydd â thrwydded Lles Adeg Lladd (WATOK)
- Rheiny sydd â Thystysgrif Cymhwysedd (CoC) i ladd anifeiliaid
- Awdurdodau lleol

I ba wledydd yn y Deyrnas Unedig (DU) mae'r canllawiau hyn yn berthnasol?

- Cymru
- Lloegr

Dyddiad adolygu

Byddwn ni'n adolygu'r canllawiau hyn cyn mis Medi 2021.

Geiriau allweddol:

- cig a da byw
- hylendid a diogelwch bwyd
- cyfraith bwyd, monitro a rheolaethau

Cynnwys

Hanes diwygio	2
Crynodeb	4
Diben	4
Statws cyfreithiol	4
Ar gyfer pwy mae'r cyhoeddiad hwn?	4
Dyddiad adolygu	4
Cyflwyniad	6
Cynulleidfa darged	7
Diben y canllawiau	7
Statws cyfreithiol y canllawiau	7
Rheoliadau Hylendid Bwyd	9
Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy	10
Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid	11
Rheoliadau Lles Anifeiliaid	13
Enghreifftiau Ymarferol	14
Cyfeiriadau	16
Adolygu	16
Atodiad A: Manylion cyswllt defnyddiol	17
Atodiad B: Briff Cwestiynau ac Atebion ar Ladd Gartref ar gyfer Ffermwyr/Ceidwaid	19
Atodiad C: Diffiniad o ddeunydd risg penodedig	22

Cyflwyniad

1. "Lladd Gartref" yw lladd anifail da byw gan ei berchennog ar ei safle ei hun i'w fwyta gan y perchennog neu gan aelodau o'r teulu agos sy'n byw yno. Nid yw lladd gartref yn digwydd mewn lladd-dy cymeradwy. Ni ellir symud carcasau neu rannau o garcasau da byw sy'n cael eu lladd gartref, ac eithrio'r rhai sy'n cael eu gwaredu fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid, i safle arall i'w prosesu.
2. Mae gwahaniaeth rhwng "lladd gartref" a "lladd yn breifat" sef pan fydd perchennog yr anifail yn ei anfon i ladd-dy cymeradwy i'w ladd ac mae'r carcass wedi'i drin yn cael ei ddychwelyd i'r perchennog. Byddai anifeiliaid sy'n cael eu "lladd yn breifat" yn destun mesurau arolygu a dilysu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) fel y pennir gan y [Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol](#) (OCR), ac wedi hynny byddai'r carcass yn cael marc iechyd i nodi ei fod yn addas i'w fwyta gan bobl.
3. Mae "lladd gartref" hefyd yn wahanol i ladd anifeiliaid da byw ar y fferm yn dilyn damwain pan fydd y lladd yn digwydd yn unol â'r gweithdrefnau brys a osodir mewn deddfwriaeth. Mae hyn ond yn berthnasol i'r broses o ladd anifail sydd fel arall yn iach gan ei fod wedi cael damwain sy'n golygu nad oes modd ei gludo i'r lladd-dy am resymau lles. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i anifeiliaid o'r fath fod yn destun archwiliad ac ardystiad ante mortem gan Filfeddyg Swyddogol ar y fferm cyn cael ei ladd a chyn i'r carcass gael ei gludo ymlaen i ladd-dy cymeradwy. Yna, byddai'r carcass yn destun archwiliad milfeddygol pellach ac yn destun gweithdrefnau arolygu ffurfiol gan yr ASB cyn cael marc iechyd i nodi ei fod yn addas i'w fwyta gan bobl. Yn wahanol i gig o anifeiliaid a gaiff eu lladd gartref, gellir rhoi cig o anifeiliaid sy'n cael eu lladd yn unol â gweithdrefnau brys i'w werthu ar y farchnad i'w fwyta gan bobl.
4. Dylid nodi bod lladd gartref yn debygol o beri mwy o risg i iechyd pobl na lladd sy'n digwydd mewn safle cymeradwy lle mae cig yn destun gweithdrefnau arolygu ffurfiol i wirio ei fod yn addas i'w fwyta gan bobl. Mae rhestr fanwl o'r holl sefydliadau yn y DU sydd wedi'u cymeradwyo i drin, paratoi neu gynhyrchu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ar gael ar wefan yr ASB, ac mae'r rhestr yn cynnwys lleoliadau lladd-dai cymeradwy. Gall perchnogion da byw weld y manylion [yma](#) ac yn Atodiad A.
5. Mae'n ofyniad cyfreithiol bod pob perchennog da byw yn cadw cofnodion priodol o ran adnabod a symud eu hanifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwartheg, defaid, geifr, moch a cheirw sy'n cael eu lladd gartref yn cael eu cofnodi mewn cofrestrau fferm ac yn cael eu hadrodd i'r asiantaeth briodol, fel Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS), y Gwasanaethau Adrodd a Symud Anifeiliaid (ARAMS) ac EID Cymru, yn y ffordd arferol¹. Pan ganfyddir nad oes cofnodion priodol wedi'u cadw, cymerir camau gorfodi yn ôl yr angen.

¹ I gael rhagor o wybodaeth, ewch i <http://www.gov.uk/topic/keeping-farmed-animals>

Cynulleidfa darged

6. Perchenogion da byw² sy'n ystyried lladd anifeiliaid ar y fferm³ i'w bwyta ganddyn nhw neu gan aelodau o'r teulu agos sy'n byw yno.
7. Rheiny sydd â thrwydded i ladd anifeiliaid (trwydded WATOK) neu Dystysgrif Cymhwysedd a ddyfarnwyd gan yr awdurdod cymwys perthnasol sy'n lladd gartref o dan gyfrifoldeb a goruchwyliaeth perchennog y da byw ar y fferm at ddefnydd personol y perchennog neu aelodau uniongyrchol y teulu sy'n byw yno.
8. Awdurdodau gorfodi sy'n gyfrifol am orfodi Rheoliadau Lles Anifeiliaid, y Rheoliadau Hylendid Bwyd a'r Rheoliadau Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) domestig a'r Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid ar y fferm.

Diben y canllawiau

9. Rhoi cyngor ar yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn gallu lladd da byw gartref yn gyfreithlon.
10. Diogelu'r gadwyn fwyd a bwyd anifeiliaid a lleihau unrhyw risgiau posibl i iechyd a lles pobl ac anifeiliaid.

Statws cyfreithiol y canllawiau

11. Paratowyd y canllawiau hyn i roi:
 - Canllawiau ar ofnion cyfreithiol
 - Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid (fel y'i diwygiwyd)
 - Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 ar osod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd
 - Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd)/Rheoliadau Hylendid Bwyd (Lloegr) 2006 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd (Lloegr) 2013 (fel y'u diwygiwyd)
 - Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004

<https://gov.wales/animal-movements-registration>

² Ni fwriedir i'r Canllawiau hyn gwmpasu'r holl rywogaethau da byw, ond maent yn cwmpasu'r rhywogaethau hynny yr ydym ni'n cael y mwyafrif o ymholiadau yn eu cylch. Mae'n arbennig o berthnasol i wartheg, defaid a geifr lle mae rheolaethau TSE yn berthnasol

³ At ddibenion y canllawiau hyn, diffinnir 'fferm' fel unrhyw safle lle cedwir da byw

- Rheoliad Enffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) yr UE (CE) Rhif 999/2001 (fel y'i diwygiwyd)
- Rheoliadau Enffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018 (fel y'u diwygiwyd)/Rheoliadau Enffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Lloegr) 2018
- Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009 yn gosod rheolau iechyd o ran sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio na fwriadwyd i'w bwyta gan bobl fel y'u gorfodir gan y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014/Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Lloegr) 2013 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1099/2009 ar Ddiogelu Anifeiliaid Adeg eu Lladd
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014/Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Lloegr) 2015
- Rheoliad (UE) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion amddiffyn planhigion yn cael eu cymhwyso
- Canllawiau arfer gorau. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i ddilyn canllawiau arfer gorau.

12. Ni all y canllawiau hyn ar y gofynion cyfreithiol drin a thrafod pob sefyllfa, ac efallai bod angen i chi ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol eich hun i weld sut y mae'n berthnasol i'ch sefyllfa chi. Efallai y bydd ceidwaid da byw neu fusnesau sydd ag ymholiadau penodol am geisio cyngor eu hasiantaeth orfodi leol, sef adran Safonau Masnach/Iechyd yr Amgylchedd yr awdurdod lleol lle mae'r fferm fel arfer.⁴

13. Bydd dilyn y nodiadau canllaw hyn yn eich helpu i gydymffurfio â'r gyfraith. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i ddilyn canllawiau arfer gorau. Nodir yr holl ganllawiau ar arfer gorau mewn blychau cysgodol, gyda phennawd Arfer Gorau:

Arfer Gorau

Mae'r holl ganllawiau arfer gorau wedi'u nodi'n glir yn y ddogfen hon yn y fformat hwn.

⁴ Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt Safonau Masnach drwy <https://www.tradingstandards.uk/consumers/support-advice>

Gallwch ddod o hyd i fanylion eich awdurdod lleol drwy wefan yr [Asiantaeth Safonau Bwyd](#).

Cyfeiriadau'r UE yn nogfennau canllaw'r ASB

Gadawodd y DU yr UE ar 31 Ionawr 2020 gan ddechrau ar gyfnod pontio, tan ddiwedd 2020, tra bod y DU a'r UE yn negodi partneriaeth economaidd yn y dyfodol. Yn ystod y cyfnod pontio, bydd cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yr UE yn parhau i fod yn berthnasol yn y DU. Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn darparu, o 1 Ionawr 2021, y bydd deddfwriaeth benodol yr UE sy'n uniongyrchol berthnasol, gan gynnwys cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, yn cael ei throsi'n gyfraith y DU.

Mae cyfeiriadau yn y ddogfen ganllaw hon at Reoliadau'r UE ac unrhyw ddeunydd canllaw cysylltiedig gan yr UE yn parhau i fod yn gywir yn ystod y cyfnod pontio. O 1 Ionawr 2021, dylid cymryd unrhyw gyfeiriadau at Reoliadau'r UE i olygu cyfraith yr UE a ddargedwir (*retained EU law*), a gellir cael mynediad ati drwy archif ar-lein Ymadael â'r UE. Dylid darllen cyfraith yr UE a ddargedwir ochr yn ochr ag unrhyw ddeddfwriaeth Ymadael â'r UE a wnaed i sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n gywir. Caiff ei ddeddfwriaeth hon ei chyhoeddi ar legislation.gov.uk/cy/.

Wrth gyhoeddi canllawiau newydd a diwygiedig ar ôl y cyfnod pontio, bydd yr ASB yn anelu at sicrhau bod croesgyfeiriadau yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r gyfraith sydd mewn grym ar y pryd.

Rheoliadau Hylendid Bwyd

14. Mae [Rheoliadau Hylendid Bwyd \(CE\) 853/2004](#), sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid, yn nodi, yn y rhan fwyaf o achosion, bod yn rhaid i gig sy'n cael ei werthu i'w fwyta gan bobl ddod o anifeiliaid sy'n cael eu lladd mewn lladd-dy cymeradwy. Mae lladd o'r fath, ymhlith pethau eraill, yn destun arolygiad a dilysiad gan yr ASB.
15. Mae p'un a yw anifail wedi cael ei ladd yn gyfreithlon y tu allan i safle cymeradwy yn dibynnu ar b'un a oes bwriad i roi'r carcass neu gig y carcass "ar y farchnad". Ystyr "rhoi ar y farchnad" yw "cadw bwyd neu fwyd anifeiliaid at ddibenion gwerthu, gan gynnwys ei gynnig i'w werthu neu unrhyw fath arall o drosglwyddiad, p'un a yw am ddim ai peidio, a gwerthu, dosbarthu a mathau eraill o drosglwyddo eu hunain" ([Rheoliad \(CE\) Rhif 178/2002, Erthygl 3](#)). Er enghraifft, mae cyflenwi carcass yn ôl i'r perchennog gan ladd-dy cymeradwy yn gyfystyr â rhoi cig ar y farchnad o dan y diffiniad hwn oherwydd:
 - a. Caiff bwyd ei gyflenwi wrth gynnal y busnes; a
 - b. Caiff cig ei gyflenwi gan fod y cynnyrch sy'n cael ei ddychwelyd ar ôl y lladd (y carcass wedi'i drin neu'r cig) yn hollol wahanol i'r hyn a ddosbarthwyd i'r lladd-dy (yr anifail byw).

16. Felly, er mwyn sicrhau bod lladd gartref yn gyfreithlon ac wedi'i eithrio o'r Rheoliadau Hylendid, **dim ond** i deulu agos sy'n rhannu'r cartref y dylai'r perchennog gyflenwi'r cig. Ni ellir symud carcassau na rhannau o garcasau o dda byw sy'n cael eu lladd gartref, ac eithrio'r rhai sy'n cael eu gwaredu fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid, i safle arall i'w prosesu. Mae'n anghyfreithlon o dan [Reoliadau Hylendid Bwyd \(Cymru\) 2006](#), [Rheoliadau Diogelwch Bwyd a Hylendid \(Lloegr\) 2013](#) a [Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004](#) i gyflenwi i eraill, er enghraifft rhoi i ffrindiau neu i deulu nad ydyn nhw'n byw yn yr un cartref, neu werthu cig mewn siop ar y fferm neu farchnadoedd ffermwyr.
17. Mae'n anghyfreithlon i roi cig o anifeiliaid a laddwyd gartref ar y farchnad, ac felly gellir atafael (*seize*) a dinistrio'r cig (gall swyddogion yr awdurdod lleol ardystio nad yw cig wedi'i gynhyrchu, ei brosesu na'i ddsbarthu yn unol â'r Rheoliadau hynny. Byddai cig o'r fath yn cael ei drin wedyn fel cig nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd o dan adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Yna, byddai modd cael gorchymyn i'w gondemnio gan Lys Ynadon). Wrth gyflawni'r rôl orfodi hon, weithiau bydd angen i awdurdodau lleol gysylltu â'r ASB. Ceir rhestr o fanylion cyswllt yn Atodiad A.

Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy

18. Mae'r Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) yn berthnasol lle bynnag y mae anifail sy'n gallu cael TSE yn cael ei ladd. **Mae hyn yn cynnwys lladd gartref.**

Mae hyn yn golygu, ar ôl lladd gwartheg, defaid neu eifr, bod yn rhaid symud, staenio a chael gwared ar y deunydd risg penodedig yn unol â [Rheoliad TSE yr UE \(CE\) Rhif 999/2001](#) a [Rheoliad \(CE\) Rhif 1069/2009 ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid](#). Mae TSE yn grŵp o glefydau y gellir eu canfod mewn anifeiliaid a phobl ac mae'n achosi anhwylder dirywiol yr ymennydd. Gelwir y TSE a geir mewn gwartheg yn Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) ac mewn defaid a geifr, mae'r TSEs y gellir eu darganfod yn cynnwys clefyd y crafu (*scrapie*). Gall bwyta cig o anifail heintiedig effeithio ar bobl, yn benodol, gwartheg sydd â BSE. Cyfeirir ato'n aml fel 'clefyd gwartheg gwallgof'. Deunydd risg penodedig yw'r rhannau hynny o wartheg, defaid a geifr sy'n fwyaf tebygol o beri risg o heintio pe bai'r anifail y mae'n dod ohono wedi'i heintio â chlefyd TSE. Mae'n hanfodol, felly, bod y deunydd hwn yn cael ei dynnu o gadwyni bwyd pobl ac anifeiliaid a'i ddinistrio.

19. Mae rhestr lawn o ddeunydd risg penodedig ynghyd â'r gofynion staenio yn Atodiad C. **Rhaid cael gwared ar ddeunydd risg penodedig mewn ffatri rendro neu losgi categori 1 cymeradwy. Mae manylion y rhain i'w gweld [yma](#) ac yn Atodiad A.**
20. Yn ogystal â chael gwared ar ddeunydd risg penodedig, mae angen profi gwartheg iach dros 30 mis oed a anwyd yn Rwmania neu Fwlgaria sy'n cael eu lladd am fwyd ar gyfer BSE. Nid yw hyn yn berthnasol i wartheg iach a gaiff eu geni yn y DU

nac unrhyw Aelod-wladwriaeth arall o'r UE. Rhaid i'r gwartheg canlynol hefyd brofi'n negyddol am BSE cyn gallu bwyta'r cig:

- Gwartheg iach dros 30 mis oed a gaiff eu lladd i'w bwyta gan bobl a aned ym mhob gwlad y tu allan i'r UE.
- Gwartheg dros 48 mis a gaiff eu lladd mewn argyfwng (hynny yw, anifail sydd fel arall yn iach sydd wedi cael damwain sy'n ei rwystro rhag cael ei gludo i'r lladd-dy).
- Gwartheg dros 24 mis a gaiff eu lladd mewn argyfwng a aned yn Rwmania, Bwlgaria a phob gwlad arall y tu allan i'r UE.

21. Os oes angen prawf BSE ar yr anifail sydd i'w ladd, dylech gysylltu â safle samplu BSE cymeradwy i wneud y trefniadau profi. Mae rhagor o wybodaeth sy'n manylu ar yr holl safleoedd samplu BSE cymeradwy ar gael o swyddfeydd lleol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ac ar wefan APHA: <https://www.gov.uk/government/publications/tse-testing-of-fallen-cattle-approved-premises>
22. Dim ond os yw'r prawf BSE yn negyddol y dylid bwyta cig o'r anifail. Os yw'r prawf yn bositif, rhaid cael gwared ar y carcas a phob rhan o'r corff fel sgil-gynnyrch anifail categori 1. Rhestrir manylion cyswllt i gynghori ar brofion BSE a chael gwared ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn Atodiad A.
23. Mae'r Rheoliadau TSE domestig yn caniatáu i awdurdodau lleol benodi arolygwyr i orfodi'r ddeddfwriaeth ac yn darparu pwerau i arolygwyr gael mynediad at safleoedd, atafael unrhyw garcas neu ran o garcas a chael gwared ohono fel y bo angen. Fel arall, gall arolygwr gyflwyno hysbysiad i'r perchennog yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei wared.

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid

24. Os ydych chi'n lladd anifail gartref, byddai unrhyw ran o'r carcas nad ydych yn ei bwyta yn cyfrif fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid o dan Reoliad Sgil-Gynhyrchion Anifeiliaid (CE) Rhif 1069/2009 yr UE. **Mae sgil-gynhyrchion anifeiliaid a gynhyrchir o ganlyniad i ladd da byw gartref yn ddarostyngedig i ofynion y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid.**
25. Sgil-gynhyrchion anifeiliaid yw corff cyfan, rhan o anifail neu gynnyrch sy'n dod o anifail nad yw wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl.
26. Daw deunyddiau yn sgil-gynhyrchion anifeiliaid pan fyddant yn anaddas i'w bwyta gan bobl, neu pan fyddant yn addas at y diben hwnnw, ond nad ydynt wedi'u bwriadu i'w bwyta gan bobl. Unwaith y daw deunydd yn sgil-gynnyrch, ni all droi yn ôl i fod yn fwyd.
27. Mae tri chategori o sgil-gynhyrchion anifeiliaid:

- Categori 1. Y rhain sy'n peri'r risg uchaf i iechyd pobl neu anifeiliaid ac maent yn cynnwys deunydd risg penodedig (gweler yr adran ar Reoliadau TSE uchod). Fel rheol rhaid cael gwared ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 1 trwy losgi neu rendro mewn sefydliad a gymeradwywyd gan APHA. Enghreifftiau eraill o ddeunyddiau Categori 1 yw:
 - cyrff cyfan neu rannau o anifeiliaid marw a charcasau sy'n cynnwys deunydd risg penodedig adeg eu gwaredu (oni bai bod y deunydd risg penodedig wedi'i dynnu a'i waredu ar wahân).
 - holl rannau'r corff, gan gynnwys crwyn, o anifeiliaid yr amheuir neu y cadarnhawyd eu bod wedi'u heintio gan TSE (gan gynnwys y rhai o anifeiliaid nad ydynt yn profi'n negyddol ar gyfer TSE yn dilyn profion).
 - cymysgedd o ddeunydd Categori 1 a deunydd Categori 2.
 - cymysgedd o ddeunydd Categori 1 a deunydd Categori 3.
- Categori 2. Mae'r rhain yn peri risg uchel i iechyd pobl neu anifeiliaid. Mae enghreifftiau'n cynnwys:
 - sgil-gynhyrchion anifeiliaid heb eu cynnwys yn y diffiniadau ar gyfer Categori 1 neu 3.
 - cynhyrchion sy'n cynnwys gweddillion cyffuriau milfeddygol awdurdodedig a halogion sy'n uwch na'r lefelau a ganiateir.
 - anifeiliaid a rhannau o anifeiliaid sy'n marw heblaw trwy gael eu lladd i'w bwyta gan bobl, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu lladd at ddibenion rheoli clefydau (oni bai bod y rhain yn dod o fewn Categori 1) a ffetysau (*foetuses*).
 - tail a chynnwys y llwybr treulio.
 - cymysgeddau o ddeunydd Categori 2 a deunydd Categori 3.
- Categori 3. Y rhain sy'n peri'r risg isaf a gellir defnyddio rhai (ond nid pob un) i gynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes. Mae enghreifftiau'n cynnwys:
 - Carcasau a rhannau o anifeiliaid sy'n cael eu lladd, ac sy'n addas i'w bwyta gan bobl yn unol â deddfwriaeth y Gymuned, ond nad ydynt wedi'u bwriadu i'w bwyta gan bobl am resymau masnachol
 - Gwaed, brych, gwllân, plu, gwallt, cyrn a charnau sy'n dod o anifeiliaid byw nad oeddent yn dangos unrhyw arwyddion o glefyd y gellir ei drosglwyddo trwy'r cynnyrch hwnnw i bobl neu i anifeiliaid

28. Mae angen storio sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn briodol mewn cynwysyddion wedi'u labelu nad ydynt yn gollwng, wedi'u staenio yn ôl yr angen (mae hyn yn berthnasol i gynhyrchion Categori 1 a Chategori 2 ac eithrio gwaed, cynnwys perfedd ac offal gwyrdd wedi'i gymysgu â chynnwys perfedd) ac, wrth eu hanfon i'w gwaredu, mae angen cynnwys dogfennau sgil-gynhyrchion anifeiliaid gyda nhw.
29. Rhaid anfon sgil-gynhyrchion anifeiliaid i ffatrioedd sydd wedi'u cymeradwyo neu eu cofrestru ar gyfer y categori perthnasol o sgil-gynhyrchion anifeiliaid; mae hyn hefyd yn berthnasol i ganolfannau casglu canolraddol. Gall ffermwyr ddefnyddio eu dull cludo eu hunain ar gyfer eu sgil-gynhyrchion anifeiliaid i gyrchfan derbynol. Fodd bynnag, wrth gludo sgil-gynhyrchion anifeiliaid rhaid i chi sicrhau eich bod yn defnyddio cerbydau a chynwysyddion sydd wedi'u gorchuddio ac sy'n atal gollyngiadau. Yn yr achosion hynny, mae dogfennaeth fasnachol, labelu ac unrhyw ofynion eraill hefyd yn berthnasol.
30. Yr awdurdod lleol perthnasol lle mae'r fferm wedi'i lleoli sy'n gyfrifol am orfodi'r gofynion sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Mae'r rheoliadau sgil-gynhyrchion anifeiliaid domestig hefyd yn rhoi pwerau i swyddogion awdurdodedig, fel pwerau sy'n rhoi mynediad i arolygu safle neu gyflwyno hysbysiadau (er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol cael gwared ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt; ei gwneud yn ofynnol glanhau a diheintio'r safle a, lle bo hynny'n berthnasol, nodi'r dull ar gyfer glanhau a diheintio o'r fath; neu wahardd sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt rhag cael eu symud i mewn neu allan o'r safle).
31. Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar gael gwared ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid trwy <https://www.gov.uk/guidance/animal-by-product-categories-site-approval-hygiene-and-disposal>

Rheoliadau Lles Anifeiliaid

32. Mae deddfwriaeth hefyd i ddiogelu lles anifeiliaid da byw⁵ pan gânt eu lladd. Rhaid lladd yn unol â gofynion [Rheoliad y Cyngor \(CE\) Rhif 1099/2009 ar Ddiogelu Anifeiliaid Adeg eu Lladd](#) a [Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd \(Cymru\) 2014 a \(Lloegr\) 2015](#) (WATOK). Caiff y Rheoliadau Lles Anifeiliaid hyn eu gorfodi gan yr ASB mewn lladd-dai cymeradwy.
33. O dan y Rheoliadau Lles Anifeiliaid, pan fydd anifeiliaid yn cael eu lladd, rhaid eu gwarchod rhag unrhyw boen, trallod neu ddioddefaint y gellir ei osgoi yn ystod y broses. Dim ond ar ôl eu stynio yn unol â'r dulliau a'r gofynion penodol a nodir yn Atodiad I o Rheoliadau'r Cyngor (CE) Rhif 1099/2009 a WATOK y gellir lladd anifeiliaid sydd i'w lladd gartref. Rhaid sicrhau bod y diffyg ymwybyddiaeth a synwyrusrwydd yn para hyd at farwolaeth yr anifail. Dim ond mewn lladd-dai

⁵ I gael rhagor o wybodaeth, ewch i <https://www.gov.uk/guidance/animal-welfare>

cymeradwy y caniateir lladd anifeiliaid trwy ddulliau a ragnodir gan ddefodau crefyddol heb eu stynio ymlaen llaw, yn unol ag Atodlen 3 o WATOK.

34. O dan y Rheoliadau Lles Anifeiliaid, dim ond pobl sydd â'r lefel briodol o gymhwysedd i wneud hynny gall ladd anifail a chynnal unrhyw weithrediadau cysylltiedig gartref, heb achosi unrhyw boen, trallod na dioddefaint i'r anifeiliaid.
35. Mae'r Gymdeithas Lladd heb Greulondeb wedi cyhoeddi taflen o'r enw *On-farm slaughter* sy'n amlinellu'n fanwl fanylion deddfwriaeth ac arfer gorau i ffermwyr ar ladd heb greulondeb ar y fferm. Mae'r daflen ar gael drwy <https://www.hsa.org.uk/downloads/technical-notes/tn8-on-farm-slaughter-of-livestock-for-consumption.pdf>. Mae pwynt cyswllt hefyd i'w weld yn Atodiad A.
36. Y tu allan i safleoedd cymeradwy (hynny yw, wrth ladd gartref), mae'r Rheoliadau'n cael eu gorfodi gan APHA gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol yn ôl yr angen. Gall awdurdod lleol benodi arolygwyr at ddibenion gorfodi gofynion cyfreithiol mewn sefydliadau ac eithrio lladd-dai. Gall arolygydd, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol (nid oes angen hyn bob amser), fynd i mewn i unrhyw safle ar awr resymol at ddibenion gweithredu neu orfodi'r Rheoliadau. Yn y cyd-destun hwn, mae "safle" yn cynnwys unrhyw dir, adeilad, sied, corlan, cynhwysydd neu gerbyd o unrhyw ddisgrifiad.
37. Ymchwilir i unrhyw dystiolaeth o fethu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, fel y manylir yn y canllawiau hyn, a chymerir camau gorfodi yn ôl yr angen. Os oes unrhyw amheuaeth na ellir bodloni amodau lles er mwyn gallu lladd da byw gartref yn gyfreithlon, rhaid i'r anifail/anifeiliaid gael eu hanfon i ladd-dy cymeradwy lle gall cig fod yn destun gweithdrefnau arolygu ffurfiol i wirio ei fod yn addas i'w fwyta gan bobl. Gall perchnogion da byw weld lle mae'r lladd-dai cymeradwy [yma](#) ac yn Atodiad A.

Enghreiffiau Ymarferol

38. Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos canlyniadau cymhwyso'r gofynion cyfreithiol yn ymarferol.

Y ffermwr yn lladd da byw gartref i fwyta'r cig ei hun neu gan ei deulu agos sy'n byw yn yr un cartref

39. Mae hyn yn **gyfreithlon**. Gan nad yw'r ffermwr, o dan yr amgylchiadau hyn, yn weithredwr busnes bwyd, nid yw Rheoliadau Hylendid Bwyd yr UE yn gymwys. Fodd bynnag, nid yw lladd gartref yn rhan o gwmpas WATOK na'r rheoliadau sy'n ymwneud â TSE a sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Felly rhaid i anifeiliaid gael eu lladd heb greulondeb, rhaid tynnu'r deunydd risg penodedig, ei staenio a'i waredu fel sgil-gynnyrch anifeiliaid categori 1. Rhaid i wartheg y mae gofyn eu profi gael prawf BSE negyddol cyn y gellir bwyta'r cig. Ni ellir symud carcasau neu rannau o garcasau da byw sy'n cael eu lladd gartref, ac eithrio'r rhai sy'n cael eu gwaredu fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid, i safle arall i'w prosesu.

Arfer Gorau

Dylai'r ffermwr roi gwybod ymlaen llaw i'r Tîm Iechyd a Lles Anifeiliaid, yn yr awdurdod lleol lle mae'r fferm wedi'i lleoli, am unrhyw ladd sy'n digwydd gartref. Os nad yw hyn yn bosibl am ryw reswm, dylid rhoi gwybod cyn pen 5 diwrnod ar ôl lladd yr anifail. **Gellir gweld manylion cyswllt eich awdurdod lleol [yma](#) ac yn Atodiad A.**

Lladd a thynnu croen ar y fferm gan laddwr trwyddedig

40. Mae hyn yn **gyfreithlon**. Os nad ydych chi'n barod i gyflawni'r broses ladd eich hun, gallwch gyflogi lladdwr trwyddedig i ladd a pharatoi'r anifail/anifeiliaid ar y fferm o dan eich cyfrifoldeb a'ch goruchwyliaeth chi. Rhaid i'r lladdwr feddu ar Dystysgrif Cymhwysedd neu drwydded WATOK ar gyfer y gweithgareddau perthnasol sy'n dangos bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r tasgau'n drugarog ac yn effeithlon. Ni ellir symud carcasau na rhannau o garcasau o dda byw sy'n cael eu lladd gartref, ac eithrio'r rhai sy'n cael eu gwaredu fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid, i safle arall i'w prosesu. Dylai unrhyw laddwr trwyddedig allu cyflwyno tystiolaeth o'u trwydded. Fodd bynnag, os oes angen, gellir gwirio Tystysgrif Cymhwysedd neu drwydded WATOK lladdwr trwy anfon e-bost at WATOK@food.gov.uk gyda manylion yr unigolyn gan gynnwys dyddiad geni a chyfeiriad os yw'n bosibl.

Dim ond y perchennog a/neu deulu agos sy'n byw ar yr un aelwyd sy'n gallu bwyta cig o anifail a laddwyd gartref. Ni chaniateir gwerthu na rhoi cig o anifail a laddwyd gartref fel rhodd.

Arfer Gorau

1. Dylai'r ffermwr roi gwybod ymlaen llaw i'r Tîm Iechyd a Lles Anifeiliaid, yn yr awdurdod lleol lle mae'r fferm wedi'i lleoli, am unrhyw ladd sy'n digwydd gartref. Os nad yw hyn yn bosibl am ryw reswm, dylid rhoi gwybod cyn pen 5 diwrnod ar ôl lladd yr anifail. **Gellir gweld manylion cyswllt eich awdurdod lleol [yma](#) ac yn Atodiad A.**

2. Mae'r ASB yn cynghori'r ffermwr a'r lladdwr sy'n ymgymryd â'r lladd (ar ran y perchennog) i gadw cofnod o bryd y defnyddir gwasanaethau'r lladdwr.

Y ffermwr yn lladd da byw gartref i'w bwyta gan westeion yn ei fusnes gwely a brecwast

42. Mae hyn yn **anghyfreithlon**. Byddai'r ffermwr yn cyflenwi'r cig fel rhan o'i fusnes (hynny yw, mae'n lladd ei anifail gyda'r bwriad o'i roi i westeion ei fusnes gwely a brecwast). **Rhaid i gig a roddir i westeion gwely a brecwast ddod o anifeiliaid a laddwyd mewn lladd-dy cymeradwy.** Gall perchnogion da byw weld lleoliadau lladd-dai cymeradwy [yma](#) ac yn Atodiad A.

Lladd da byw ar safle rhywun arall nad yw wedi'i gymeradwyo

43. Mae hyn yn **anghyfreithlon**. Mae'n erbyn y gyfraith i ladd yr anifail unrhyw le arall i ffwrdd o'ch eiddo ac eithrio mewn lladd-dy cymeradwy a bydd yn cael ei orfodi gan awdurdodau lleol.

Lladd da byw yn breifat mewn lladd-dy cymeradwy

44. Mae hyn yn **gyfreithlon**. Cyfeiriwch at baragraff 2 am ystyr "lladd preifat". Gall perchnogion da byw weld lleoliadau lladd-dai cymeradwy [yma](#) ac yn Atodiad A.

Cyfeiriadau

45. Mae rhestr o fanylion cyswllt defnyddiol a dolenni cysylltiedig i'w gweld yn Atodiad A.
46. Mae briff cwestiynau ac atebion ar ladd gartref ar gyfer ffermwyr/ceidwaid i'w weld yn Atodiad B.
47. Gellir gweld diffiniad o ddeunydd risg penodedig (SRM) yn Atodiad C.

Adolygu

Ein nod yw cadw'r holl ganllawiau yn gyfredol a chynnal adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod canllawiau'n parhau i fod yn berthnasol. Y dyddiad adolygu nesaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer y canllawiau hyn yw mis Medi 2021.

Cysylltu â ni

Rydym ni'n croesawu eich adborth ar y canllawiau hyn, gan gynnwys adroddiadau am unrhyw ddolenni sydd wedi torri neu gynnwys sydd wedi dyddio. Byddwn ni'n ystyried yr holl adborth yn yr adolygiad arfaethedig nesaf o'r canllawiau. Anfonwch unrhyw adborth at meathygiene@food.gov.uk.

Atodiad A: Manylion cyswllt defnyddiol

Asiantaeth Safonau Bwyd

Lladd gartref, Lladd yn breifat, Lladd brys a materion cysylltiedig

Tîm Polisi Hylendid Cig	Asiantaeth Safonau Bwyd Llawr 6 Clive House 70 Petty France Llundain SW1H 9EX	Ffôn: 020 7276 8000 E-bost: meathygiene@food.gov.uk
--------------------------------	--	---

Lleoliad lladd-dai cymeradwy

Manylion sefydliadau bwyd cymeradwy sy'n cynnwys lladd-dai a'u lleoliadau	https://data.food.gov.uk/catalog/datasets/1e61736a-2a1a-4c6a-b8b1-e45912ebc8e3
--	---

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) – Ar gyfer Lloegr

Manylion cyswllt DEFRA	https://www.gov.uk/guidance/contact-defra
-------------------------------	---

Manylion cyswllt Llywodraeth Cymru	https://llyw.cymru/ffermio-a-chefn-gwlad
---	---

Swyddfeydd Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yng Nghymru ac yn Lloegr

Manylion cyswllt	https://www.gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency/about/access-and-opening
-------------------------	---

Adran Safonau Masnach

Sut i ddod o hyd i'ch Adran Safonau Masnach leol	https://www.tradingstandards.uk/consumers/support-advice
---	---

Manylion Cyswllt eich Awdurdod Lleol – Lle mae'n bosibl, dylid rhoi gwybod ymlaen llaw i'r Tîm Iechyd a Lles Anifeiliaid am fwriad i ladd gartref.

Sut i ddod o hyd i'ch Awdurdod Lleol	https://www.food.gov.uk/cy/contact/consumers/find-details/cysylltwch-a-thim-diogelwch-bwyd
---	---

Y Gymdeithas Lladd Heb Boen – Lladd Da Byw ar y Fferm i'w fwyta

Y Gymdeithas Lladd Heb Boen www.hsa.org.uk	HSA The Old School Brewhouse Hill Wheathampstead Herts AL4 8AN	Ffôn: 01582 831 919 Ffacs: 01582 831 414 E-bost: info@hsa.org.uk
--	---	---

Safleoedd Gwaredu Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid Cymeradwy (gan gynnwys Deunydd Risg Penodedig)

Rhestr o safleoedd gwaredu Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid cymeradwy	https://www.gov.uk/government/publications/animal-by-product-operating-plants-approved-premises
--	---

Safleoedd sydd wedi'u cymeradwyo i gynnal Profion TSE (Cymru a Lloegr)

Rhestr o safleoedd sydd wedi'u cymeradwyo i gynnal profion TSE	https://www.gov.uk/government/publications/tse-testing-of-fallen-cattle-approved-premises
---	---

Atodiad B: Briff Cwestiynau ac Atebion ar Ladd Gartref ar gyfer Ffermwyr/Ceidwaid

C1. Nid oes gennyf basbort gwartheg ar gyfer fy anifail, ac mae wedi'i gyfyngu i'm daliad. A allaf ei ladd gartref?

Gallwch. Yn ddarostyngedig i'r rheolau arferol ar gyfer lladd gartref, nid yw Rheoliadau Adnabod Gwartheg 2007 (fel y'u diwygiwyd) yn gwahardd ceidwaid rhag lladd eu gwartheg ar y fferm i'w bwyta eu hunain, hyd yn oed os ydynt wedi'u cyfyngu oherwydd diffyg cydymffurfiaeth â rheolau adnabod, cofrestru a symud.

C2. A allaf fwyta unrhyw gig o'm hanifeiliaid fy hun?

Gallwch. Fodd bynnag, rhaid i chi sicrhau bod eich anifail yn cael ei ladd a'i baratoi'n gyfreithlon (gweler isod). Rhaid i'r holl ddeunydd risg penodedig gael ei dynnu, ei staenio a'i waredu fel sgîl-gynnyrch anifeiliaid Categori 1 ac ni ddylid ei fwyta. Gellir gweld diffiniad o Ddeunydd Risg Penodedig yn Atodiad C.

C3. Sut y dylwn ladd fy anifeiliaid fy hun i'w bwyta gen i?

Gallwch ladd a pharatoi eich anifeiliaid i'w bwyta gennych chi mewn dwy ffordd gyfreithlon:

(a) mewn lladd-dy cymeradwy; neu

(b) ar eich fferm gennych chi neu laddwr trwyddedig (neu rywun sydd â Thystysgrif Cymhwysedd) o dan eich cyfrifoldeb a'ch goruchwyliaeth chi. Byddai'n anghyfreithlon ymhob achos i gyflogi unrhyw un nad ydynt yn lladdwr trwyddedig i ladd yr anifail ar eich safle. Byddai hefyd yn anghyfreithlon lladd yr anifail unrhyw le arall oddi ar y fferm, ac eithrio mewn lladd-dy cymeradwy.

Ni ellir symud carcasau neu rannau o garcasau da byw sy'n cael eu lladd gartref, ac eithrio'r rhai sy'n cael eu gwaredu fel sgîl-gynhyrchion anifeiliaid, i safle arall i'w prosesu.

Mae'r ASB yn cynghori bod lladd gartref (dewis b) yn debygol o fod â mwy o risg i iechyd pobl na lladd sy'n digwydd mewn safle cymeradwy (dewis a) lle gall cig fod yn destun gweithdrefnau archwilio ffurfiol i wirio ei fod yn addas i'w fwyta gan bobl. Gall perchnogion da byw weld lle mae'r lladd-dai cymeradwy [yma](#) ac yn Atodiad A.

Arfer Gorau

Dylai'r ffermwr roi gwybod ymlaen llaw i'r Tîm Iechyd a Lles Anifeiliaid, yn yr awdurdod lleol lle mae'r fferm wedi'i lleoli, am unrhyw ladd sy'n digwydd gartref. Os nad yw hyn yn bosibl am ryw reswm, dylid rhoi gwybod cyn pen 5 diwrnod ar ôl lladd yr anifail. **Gellir gweld manylion cyswllt eich awdurdod lleol [yma](#) ac yn Atodiad A.**

C4. Beth ddylwn i ei wneud gyda'r deunydd gwastraff?

Os ydych chi'n lladd anifail gartref, byddai unrhyw ran o'r carcass nad ydych yn ei bwyta yn cyfrif fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid o dan Reoliad Sgil-Gynhyrchion Anifeiliaid (CE) Rhif 1069/2009 yr UE. Byddai'n rhaid cael gwared ar y deunydd gwastraff yn unol â'r Rheoliad, er enghraifft, trwy drefnu i'r deunydd gael ei rendro neu ei losgi mewn cyfleuster cymeradwy a chadw cofnodion priodol o hyn. Gall eich Swyddfa APHA leol neu'ch awdurdod lleol (neu, mewn rhai achosion, adran lechyd yr Amgylchedd) roi gwybod i chi am y dewisiadau sydd ar gael i chi. Rhaid i ddeunydd risg penodedig gael ei dynnu o wartheg, defaid a geifr, ac ni ddylid ei fwyta. Rhaid i ddeunydd risg penodedig gael ei staenio a'i waredu fel sgil-gynnyrch anifeiliaid Categori 1. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adran sgil-gynhyrchion anifeiliaid y canllawiau hyn (paragraffau 25-32) a hefyd ar wefan APHA sydd ar gael [yma](#).

C5. A allaf werthu unrhyw gig o'm hanifeiliaid fy hun?

Dim ond os cafodd yr anifail ei ladd mewn lladd-dy cymeradwy y byddai'n gyfreithlon i chi roi'r cig ar y farchnad. Er enghraifft, drwy ei werthu yn eich siop fferm neu ei fwydo i westeion eich busnes gwely a brechwast. Gall perchnogion da byw weld lle mae'r lladd-dai cymeradwy [yma](#) ac yn Atodiad A.

C6. A yw'r cyfyngiad ar gyflenwi cig a laddwyd gartref yn gymwys i bartneriaethau neu gyd-berchenogion?

Ydy, oni bai bod y partner neu'r cydberchnogion yn aelodau o'r teulu sy'n byw ar yr un aelwyd. Mae'n annhebygol y byddai Llys yn penderfynu bod cyflenwi cig a geir yn sgil lladd gartref yn gyfreithlon oherwydd ei fod wedi cael ei gyflenwi o fewn partneriaeth neu i gydberchennog.

C7. Beth am reolaethau TSE ar gyfer moch, dofednod, anifeiliaid hela sy'n cael eu ffermio neu gwingod sy'n cael eu lladd gartref?

Nid yw'r Rheoliadau TSE yn gymwys i foch, dofednod, anifeiliaid hela sy'n cael eu ffermio na chwingod.

C8: Sut y gallaf drefnu i brawf BSE gael ei gynnal ar fy ngwartheg sy'n cael eu lladd gartref?

Dylech gysylltu â safle samplu BSE cymeradwy i wneud y trefniadau profi. Mae rhagor o wybodaeth sy'n manylu ar yr holl safleoedd samplu BSE cymeradwy ar gael yn swyddfeydd lleol APHA ac ar wefan APHA drwy <https://www.gov.uk/government/publications/tse-testing-of-fallen-cattle-approved-premises>

C9: A allaf fwyta buwch a fagwyd gennyf gartref ac a aned cyn 1 Awst 1996?

Na allwch. Mae deddfwriaeth TSE ddomestig yn gwahardd lladd gwartheg a aned neu a fagwyd yn y DU cyn 1 Awst 1996 i'w fwyta gan bobl. Mae hefyd yn drosedd anfon gwartheg a aned neu a fagwyd yn y DU cyn 1 Awst 1996 i ladd-dy cymeradwy.

C10: A all lladd-dy cymeradwy ladd anifail yn breifat ar fy rhan?

Gall, os caiff yr anifail ei ladd mewn lladd-dy cymeradwy. Wrth ladd anifail yn breifat byddai'n rhaid dilyn yr un rheolau a gweithdrefnau â'r rheiny ar gyfer lladd anifail yn gonfensiynol (masnachol). Gall perchnogion da byw weld lle mae'r lladd-dai cymeradwy [yma](#) ac yn Atodiad A.

C11: A allaf drefnu i anifail gael ei ladd yn breifat ac eithrio mewn lladd-dy cymeradwy?

Gallwch, ond dim ond ar eich safle chi o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Gennych chi neu, os nad ydych yn barod i gyflawni'r lladd eich hun, lladdwr trwyddedig neu rywun sydd â Thystysgrif Cymhwysedd o dan eich cyfrifoldeb a'ch goruchwyliaeth ar y fferm at eich defnydd personol eich hun (gweler C3 uchod).
- Os bydd anifail yn cael damwain sy'n ei atal rhag cael ei symud i'r lladd-dy am resymau lles, gellir ei ladd ar y fferm o dan ddarpariaethau lladd brys, gyda'r cig wedyn yn cael ei ddychwelyd atoch chi. O dan yr amgylchiadau hyn, mae anifeiliaid o'r fath yn destun archwiliad milfeddygol ac ardystiad ar y fferm cyn y gellir eu lladd a'u cludo ymlaen i ladd-dy cymeradwy lle byddai'r carcass yn destun gweithdrefnau archwilio ffurfiol i wirio ei fod yn addas i'w fwyta gan bobl. Os bernir bod y cig yn addas, gellir ei ddefnyddio at eich defnydd eich hun a gellir ei roi ar y farchnad hefyd.
- Fodd bynnag, mae eithriad sy'n caniatáu i chi ladd niferoedd bach o ddofednod neu lagomorffiaid (cwingod) sydd wedi'u magu yno ar eich daliad eich hun a rhoi eu cig ar y farchnad i'w bwyta gan bobl, gan ddibynnu ar rai amodau⁶

⁶ I gael rhagor o wybodaeth, ewch i Atodiad B, paragraff B o <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/oppolicy-meateestablishments.pdf>

Atodiad C: Diffiniad o ddeunydd risg penodedig

Gwartheg	
Pob oedran	<ul style="list-style-type: none">• tonsiliau• y pedwar metr olaf o goluddyn bach• y caecwm• mesenteri
Dros 12 mis	Y penglog heb gynnwys asgwrn yr ên ond yn cynnwys yr ymennydd a'r llygaid, a llinyn asgwrn y cefn.
Dros 30 mis	Colofn yr asgwrn cefn, gan gynnwys y ganglia gwreiddiau dorsal ond heb gynnwys: <ul style="list-style-type: none">• asgwrn cefn y gynffon• prosesau troellog a thraws asgwrn cefn ceg y groth, thorasig a meingefnol• crib sacral canol ac adenydd y sacrw
Defaid a geifr	
O dan 12 mis	Dim deunydd risg penodedig
Dros 12 mis (neu blaenddant parhaol gweladwy neu dros 12 mis oed fel yr amcangyfrifir gan ddull a gymeradwywyd gan yr ASB)	Penglog, gan gynnwys yr ymennydd a'r llygaid a llinyn asgwrn y cefn. Pwysig: Nid yw'r penglog yn cynnwys cyrn.

Gofynion staenio ar gyfer deunydd risg penodedig

Mae staenio yn golygu trin y deunydd (p'un ai trwy drochi, chwistrellu neu ddull arall) gyda thoddiant 0.5% o V E131 Patent Blue V neu liw glas sy'n creu'r un effaith.

Rhaid defnyddio'r staen mewn ffordd sy'n sicrhau bod y lliw yn parhau'n glir i'w weld;

- dros yr holl arwyneb toredig a'r rhan fwyaf o'r pen yn achos pen dafad neu afr, neu
- yn achos pob math arall o ddeunydd risg penodedig, dros arwyneb cyfan y deunydd.

© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. Mewn manau lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y rheiny sy'n dal yr hawlfraint dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth ac i weld y drwydded hon:

- ewch i [wefan yr Archifau Cenedlaethol](#)
- anfonwch e-bost at psi@nationalarchives.gov.uk
- ysgrifennwch at: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU

Os oes gennych chi ymholiad am y cyhoeddiad hwn, [cysylltwch â'r Asiantaeth Safonau Bwyd](#).



Dilynwch ni ar Twitter:
[@fsacymru](#) @fsawales
[@foodgov](#)



Dewch o hyd i ni ar Facebook:
[facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd](https://www.facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd)